`Y Gwir yn Erbyn y Byd!`

Seren Tan Gwmwl

ffansin hanes annibynnol !

Rhif 4
Haf 1997

£1

CYMDEITHAS AR BRAWF

(DOES NEB YN DDI-EUOG!)

Y Bwrdd Golygyddol

Mae`r rhifyn hwn o Seren Tan Gwmwl yn cyfeirio llawer iawn at Gymdeithas yr Iaith Gymraeg. Wedi 35 mlynedd fel vanguard y chwyldro / radicaliaeth yng Nghymru, mae CYI wedi symud i fyd cyfforddus cadair freichiau gwleidyddiaeth. Y broblem... mae gormod o hen ffrindiau mewn llefydd dylanwadol; gormod o ofn brifo teimladau hen *compadres* sydd wedi symud ymlaen.

Mae CYI wastad wedi sefyll dros yr hyn maen nhw`n credu ynddo: wastad wedi bod ar y tu fas: dydyn nhw ddim bob amser wedi bod yn boblogaidd. Erbyn hyn maen nhw eisiau bod yn boblogaidd ac yn fudiad radical. Maen nhw hefyd wastad wedi arwain a chreu newid ym mhob maes. Erbyn hyn ymateb i sefyllfaoedd mae CYI: ymateb i`r *sin* gwleidyddol: ymateb i`r *sin* ieithyddol: ymateb i`r *sin* gerddorol - a`r gair Saesneg am hyn - **reactionary**!

Nhw yw Dennis Law Cymru - yn chwarae i Man City a Man Utd - yn gwasanaethu y Gymraeg a Chyfalafiaeth. Pam bod CYI yn fodlon derbyn bandiau i chwarae yn Saesneg, tra`n gwneud hwyl am ben Cynghorydd Llafur o Benparcau oherwydd nad yw`n medru siarad Cymraeg. Agwedd elitaidd? Condemnio Jonesey am hyrwyddo cerddoriaeth Saesneg, tra`n trefnu gigs dwyieithog: dyma`r bwriad beth bynnag yn Steddfod 1998.

Oi! Cymdeithas yr Iaith: Naaaa! Ry`n ni`n parchu eich *design classic*, bathodyn Tafod y Ddraig: ry`n ni`n parchu eich arweinwyr llawn gweledigaeth a charisma! Dy`n ni ddim yn parchu eich agwedd punt y gynffon. Fel y dywed y Clash: *`You`re full of shit! And you think it`s funny, **TURNING REBELLION INTO MONEY!***

Dyma`r neges...

ILDIWCH I ANKST!

Golygyddion: OWEN LLYWELYN
DANIEL DAVIES
TIM TILLMAN

Seren Tan Gwmwl, 7,Heol Ffynnon Job,
Caerfyrddin, SA31 3HG
01267 233 588

ESFFORSI



Zonked out ar ESFFORSI



Mae`r heddlu yn honni eu bod yn dechrau cau mewn ar gylch cyffuriau dieflig sydd wedi dinistrio meddyliau degau o bobl Cymru dros y 15 mlynedd diwethaf. Mae`r cyffur - ESFFORSI - sy`n lladd y meddwl, wedi cael ei wthio i gornel cartrefi cyhoedd diniwed Cymru, ac mae`r heddlu ar fin arestio`r penaethiaid. Dywedodd llefarydd ar ran yr heddlu: *`Mae pobl wedi cael eu gorfodi i`w gymryd drwy ddod i arfer ag ef, ac er nad yw`n gwneud pobl yn gaeth, mae`n bad shit. Mae`n fwy peryglus oherwydd bod elfennau o gyffuriau eraill, mwy pwerus, yn cael eu cymysgu gydag ef - cyffuriau fel BBC, ITV a C4`.*

Liam Gallagher - victim.

Mae`r rhai sy`n cymryd y cyffur yn dioddef o sgil effeithiau gwael fel colli diddordeb yn yr Iaith Gymraeg, ac mae`r rhai sy`n ei wthio wedi gwneud miliynau o bunnoedd allan o ddioddefaint pobl eraill. Dywed yr heddlu: *`Mae gan yr ymerodraeth arbennig hon strwythur hierarchaidd. Mae`n dangos pa mor gyfrwys yw`r rhai ar y top oherwydd maen nhw`n cyflogi pobl sydd heb dalent creadigol, na gwreiddioldeb; a dweud y gwir, pobl heb frains o gwbl`.*



Mr Big

Huw Jones - Evil Peddlar - - ddoe.

Un pwynt da am y cyffur hwn - esfforsi - yw nad yw eto wedi llwyddo i gael gafael ar y grwp oedran sydd fel arfer yn dioddef waethaf. Pobl ifanc 14-30 oed. Dywedodd un cynghorydd cyffuriau: *`Dydyn nhw ddim yn ei gymryd, man! Mae`n well ganddyn nhw feddwi a mynd yn high ar gyffuriau eraill, a chael amser da. Know what I mean!`*

Wrth i rwyd yr heddlu gau am y *peddlers*, mae son bod y barwniaid sy`n rhedeg y sioe yn datblygu cyffur newydd, mwy pwerus - esfforsi digitalis, sy`n achosi *nausea, flashbacks* i hen raglenni, a`r hyn sy`n cael ei alw`n *repeat syndrome*.

Grwp Therapi

Yn wahanol i ddilynwyr Dr Timothy Leary oedd yn annog pobl i ddefnyddio LSD gyda`r slogan *`Turn on, tune in, and drop out`* ymateb y *kids* i ESFFORSI hyd yn hyn yw *`Turn off, tune up the car, and let`s piss off`*!

O`r chwith i`r dde:

Lewis Valentine, Saunders Lewis yn ifanc, DJ Williams (llosgwyr Penyberth 1936).

Dywedodd Saunders ....

`I am the firestarter - twisted firestarter...

`And he dared them; / Dared them to grow old and bitter As he... A recluse, thus; himself / His hermitage?...

Dyma sut mae RS Thomas yn disgrifio John Saunders Lewis. un o feddylwyr gwleidyddol mawr y Gymru Gymraeg yn yr Ugeinfed Ganrif. Mae`n berson rhyfedd i fod yn brotfwyd i`w bobl - wedi ei eni a`i fagu yn Lloegr, yn gynnyrch addysg breifat, gyda gradd dosbarth cyntaf mewn Saesneg





Mae syniadau gwleidyddol Saunders ynddyn nhw`u hunain yn dangos pa mor bell ydoedd wrth realiti bywyd. Yng nghanol cyfnod o ddirwasgiad enbyd oedd yn rheibio De Cymru, cynigiodd Saunders mai`r ateb i broblemau`r wlad oedd **dad-ddiwydiannu** De Cymru. Roedd am weld Cymru yn wlad o fusnesau bychain a ffermwyr. ac roedd yn credu`n gryf yn y syniad o Berchentyaeth. Nid syniadau Sosialaidd oedd rhai SL, ond rhai ffiwdalaidd. Roedd am weld hierarchiaeth: *`Gwyn fyd y genedl y bo ynddi nifer helaeth o fân uchelwyr, a beirdd yn ddigon gwareiddiedig i`w clodfori`.*



Roedd yn wrth gyfalafol, ond hefyd yn wrth gomiwnyddol. Roedd yn credu mewn un ieithrwydd, ond yn ysgrifennu llawer yn Saesneg. Roedd yn ramantydd, nid pragmatydd. Dywed Emyr Humphreys am ei hun yn darllen gwaith SL: *Stwff sylfaenol, ond nid y math o beth sy`n mynd i gael ei werthfawrogi gan eich ffrindiau asgell chwith. Mae ef yn iawn, a nhw`n anghywir, ond rydych yn dal i gael eich rhwygo rhwng y ddau.*

Trodd Saunders Lewis at genedlaetholdeb tra yn y ffosydd yn Ffrainc, yn ystod haf gwlyb 1916. Tra`n darllen gwaith Maurice Barres, awdur asgell dde o Ffrainc, daeth yn ymwybodol o`i Gymreictod. Mae Barres yn disgrifio cymeriad sy`n gweld mai trwy ymgolli`n llwyr ym mywyd ei wlad a`i phobl mae dyn yn dod i adnabod ei hunan. Mae`r sawl sy`n torri ei hun i ffwrdd wrth ei orffennol ei hun, ei dir ei hun, yn newynu`r enaid ac yn dod yn berson rhwystredig. Aeth SL ati i ymgolli ei hun ym mywyd Cymru, ond wnaeth e byth llwyddo i fod yn rhan iawn ohoni, i uniaethu â`i phobl yn llawn. Nid un o *organic intellectuals* Gramsci oedd Saunders, ond dyn o`r tu allan ar y tu allan.



Roedd Saunders Lewis yn un o sefydlwyr, a llywydd Plaid Genedlaethol Cymru o 1926 hyd ddiwedd y tridegau. Yn y cyfnod hwn ef oedd y ffigwr mwyaf dylanwadol ar ei pholisiau, a phan wrthodwyd Perchentyaeth fel syniad gan y Blaid, ymddiswyddodd. Ei araith *Tynged yr Iaith* oedd hefyd yn gyfrifol am ffurfio Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Nid oedd SL yn hapus gyda`r ffordd yr aeth CYIG ati i weithredu. Dau fudiad, dau fethiant.



Dywed Emyr Humphreys *`Mae n gwbl ymwybodol bod y genedl Gymreig wedi ei wrthod. Byddai hyd yn oed y blaid wnaeth ef sefydlu yn hapusach petai`n dod yn icon tawel.*

Roedd yn berson enigmatig. Cafodd ei gysylltu â syniadau asgell dde, o gydymdeimlo â Franco, o fethu gwneud safiad yn erbyn Hitler. Roedd yn sylfaenol yn berson gwrth sosialaidd, gwrth ddemocrataidd. Yn credu mewn uchelwyr a phob math o rwtsh. Ond roedd yn berson wnaeth danio dychymyg grwp o Gymry o fewn Plaid Cymru a Chymdeithas yr Iaith, ac aeth rhain ymlaen i fabwysiadu syniadau gwell.

`Mi fethais, mi fethais yn llwyr` yn ei farn ef. Ar un olwg, fe wnaeth. Ar y llaw arall, bu`n gatalydd wnaeth ysbrydoli newidiadau pwysig o fewn Cymru. Un ar ymylon cymdeithas: byth yn rhan llawn ohoni - yn siarad am werin, a phobl, a gwerthoedd - heb eu hadnabod na`u deall yn iawn.

Cwrdd â Krupskaya, gwraig Lenin: rhannu awyren gyda Hitler a Goebbels yn ystod ymgyrch etholiad 1933 yn yr Almaen: cwrdd â thywysogion yn Inner Mongolia: cwrdd â Gweinidog Tramor Japan: bod yn ysgrifennydd personol i David Lloyd George. Dyma rai o'r pethau wnaeth Gareth Jones, Cymro Cymraeg o'r Bari gyflawni cyn diflannu yn China pan yn 29 oed. Ychydig iawn o bobl sy'n medru honni iddyn nhw fyw bywyd llawn pan maen nhw'n 30 oed. Dyma hanes Cymro Cymraeg o'r Bari gafodd ei lofruddio cyn ei benblwydd yn 30, nôl yn 1934. A'r rheswm dros ei lofruddiaeth - yn ôl Lloyd George *'roedd yn gwybod gormod'*!

dyn oedd yn gwybod gormod!

Magwyd Gareth Jones yn y Bari, ac oddi yno aeth i astudio ieithoedd modern yn Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. O fan hynny aeth ymlaen i Goleg y Drindod, Caergrawnt ac ennill graddau dosbarth cyntaf. Bu'n ddarlithydd yn gyntaf, yna cafodd swydd yn *cynghori Lloyd George ar faterion tramor, ond penderfynodd ddod* yn newyddiadurwr, ac ymunodd â staff y *'Western Mail'*. Roedd yn awyddus i gael swydd gyda'r *Times,* ac felly teithiodd ar hyd a lled y byd i ehangu ei orwelion.

Roedd Gareth Jones yn hoff o gerdded, ac ar un achlysur tra'n cerdded ar y Mynydd Du, aeth ar goll yn y niwl. Cafodd hyd i ffermdy unig ***Dorwen*** a chafodd lety gan y ffermwr Mr Moses a'i deulu: bu'n ysgrifennu'n gyson atynt weddill ei oes byr - trwy garedigrwydd disgynyddion y teulu Moses cawsom ddogfennau a gwybodaeth am Gareth Jones.



Mae 30 mlynedd o fywyd llawn Gareth Jones yn ormod i'w cofnodi fan hyn: rydym am son felly am dri achlysur o bwys: cwrdd â Krupskaya, rhannu awyren gyda Hitler, a chael ei herwgipio a'i lofruddio yn Inner Mongolia.

Yn 1932 cyfarfu Gareth Jones â Krupskaya, gweddw Lenin. Yn un o'i ysgrifau mae'n adrodd yr *anecdote* am Krupskaya yn cwympo mas gyda Stalin, a Stalin yn ateb *'Gwranda 'ma hen fenyw, os nad wyt ti'n bihafio dy hun, fe fydd yn rhaid i fi apwyntio gweddw newydd i Lenin'*.!!

Mae'n disgrifio Krupskaya yn hen fenyw dros 60 oed, yn gwisgo gwisg syml, gyda'i gwallt gwyn wedi ei glymu yn ôl. Roedd hi'n pwysleisio pwysigrwydd **addysg** i ddyfodol yr Undeb Sofietaidd: rhaid i blant ddysgu am beiriannau os oedd Rwsia a Chomiwnyddiaeth am lwyddo. Fel ei gwr gynt, credai Krupskaya mai rhywbeth i greu gormes oedd y teulu, ac er nad oedd am ddileu y teulu yn gyfangwbl (fel y ceisiodd Stalin wneud mewn *'arbrawf'* wnaeth fethu), roedd am weld rôl y teulu yn lleihau. Credai y dylai plant dreulio'r dydd yn derbyn addysg yng ngofal seicolegwyr ac athrawon, a chysgu'r nos gyda'u rhieni. Dywedodd Gareth Jones am Krupskaya:

'Pan wnes i ei gadael teimlais fy mod wedi bod wyneb yn wyneb â phersonoliaeth fawr....

Oherwydd ei gysylltiadau gyda Lloyd George roedd yn haws i Gareth Jones gyfarfod arweinwyr a phwysigion mewn gwledydd tramor: doedd Lloyd George ddim yn bwerus yng ngwleidyddiaeth Prydain erbyn dechrau'r 1930'au, ond roedd ei enw'n dal yn gyfarwydd ar hyd a lled y byd. Mae'n siwr mai dyma un o'r pethau wnaeth alluogi Gareth Jones i rannu awyren gyda Hitler yn ystod ymgyrch etholiadol yr Almaen, yn Chwefror 1932.

Roedd enw Hitler yn dechrau dod yn adnabyddus i bobl gweddill Ewrop yn y cyfnod hwn, ond nid oedd yn arweinydd yr Almaen, ac roedd yn ddirgelwch i lawer o bobl Prydain. Mae erthyglau Gareth Jones amdano yn broffwydol, ac yn dangos i ni nad oedd yr ochr farbaraidd, llofruddiol o'i gymeriad yn amlwg ar yr olwg gyntaf. Roedd yn amlwg i Gareth Jones bod dyfodol yr Almaen a dyfodol Hitler yn ddau beth oedd yn mynd law yn llaw. Dywed hyn am Hitler:

'Nid yw'n edrych yn arbennig o gwbl... sut wnaeth y dyn cyffredin yr olwg hwn ddod i gael ei addoli gan 14 miliwn o bobl?... roedd yn fwy naturiol, ac yn llai o 'poseur' nag oeddwn i'n disgwyl'.